

Y TREIGLAD LLAES

c	ch
p	ph
t	th

1. Ar ôl y rhagenwau

ei

'i

'w

sy'n cyfeirio at **enw benywaidd**.

ei **ch**ostau ei **th**ad

ei **ph**enderfyniad

gyda'i **ch**anariatâd

Aeth Nia i'w **ch**yfweliad

Amlinellodd Siân ei **ch**ynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Eglurodd Ffion y rhesymau ynglŷn â'i **ph**enderfyniad.

Cyflwynodd Nia yr adroddiad i'w **ph**ennaeth.

Yn yr achos hwn, mae'r **treigladau** yn hanfodol i'r ystyr.

2. Ar ôl y cysyllteiriau **a** (“and”) **na** (“than”)

tâl a **ch**ostau cyfarfod a **ph**wyllgor

papur a **ph**ensil yn hytrach na **ch**yfarfod arall

yn well na **th**rydan

Gofynnwyd am gopi o’r adroddiad a **th**rafodaeth lawn ar ei gynnwys.

Penderfynwyd parhau â'r drafodaeth yn hytrach na **th**refnu cyfarfod arall.

Termau

cysylltair/cysyllteiriau – conjunction/s

3. Ar ôl yr arddodiaid

â

gyda

tua

e.e.

Ysgrifennaf atoch ynglŷn â **ph**enderfyniad yr adran i wrthod eich cais.

Trefnwyd cyfres o sesiynau gloywi iaith gyda **ch**yfle i bawb eu mynychu.

Nodwyd bod yr adeilad newydd tua **th**air milltir o’r hen safle.

4. Ar ôl y negyddion

ni na

e.e.

Ni **ch**ewch wybod canlyniad y bleidlais.

Eglurodd Mr. Green na **th**alwyd iddo am gynnal y cwrs.

Termau
negyddion - negatives

5. Ar ôl y rhifolion

tri

chwe

e.e. tri **ch**yfarfod chwe **ph**wyllgor

Mae Mr. Lewis wedi cael tri **ch**yfle i ymateb i'r penderfyniad.

Termau
rhifolion - numerals